

Archwiliad +/- biopsi o Ofod y Ffaryncs-Drwynol

Cyngor Rhyddhau

Cyngor Rhyddhau yn dilyn Archwiliad +/- biopsi o Ofod y Ffaryncs-Drwynol:

Nod y driniaeth hon yw archwilio eich Gofod Ffaryncs Drwynol (Post Nasal Space – PNS) neu'r gofod yn union y tu ôl i'ch trwyn. Gall y driniaeth hon gael ei berfformio naill ai o dan anesthetig lleol (bydd cyffuriau'n cael eu rhoi i'w mwyn gwneud y trwyn yn ddideimlad) neu pan fyddwch chi'n cysgu dan anesthetig cyffredinol.

Mae'r llawdriniaeth fel arfer yn golygu pasio endosgop neu gamera anhyblyg trwy'ch trwyn yn ôl i'ch PNS. Bydd hyn yn caniatáu delweddu ac asesu priodol. Mae hefyd yn bosibl gwneud y driniaeth trwy basio offerynnau drwy'r geg (mae angen anesthetig cyffredinol ar gyfer y dechneg hon). Os oes angen, gellir anfon samplau o feinwe (biopsïau) canfyddir o fewn eich PNS i'r labordy ar gyfer asesiad pellach.

Poen

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn profi rhywfaint o ddolur yn y gwddf am y dyddiau cyntaf ar ôl y llawdriniaeth. Dylai poenladdwyr syml fel paracetamol lleddfu'r anghysur.

Diet

Osgowch brydau a diodydd poeth am 3 diwrnod ar ôl y llawdriniaeth gan y gallent gynyddu'r risg o waedu.

Ataliad trwynol

Efallai y bydd y trwyn yn teimlo'n llawn oherwydd chwyddo ar ôl llawdriniaeth a gall gymryd ychydig ddyddiau i sefydlogi. Efallai y cewch eich cynghori i ddefnyddio golchfâu trwynol dŵr halen a darperir taflen ychwanegol gyda gwybodaeth ar sut i'w defnyddio a pharatoi.

Gwaedu a gollyngiad trwynol

Efallai y bydd gennych ollyngiad dyfrllyd wedi'i staenio â gwaed o'r trwyn am yr ychydig ddyddiau cyntaf. Mae hyn yn normal a dylai gwella yn ddigymell. Os bydd gwaedu ffres, cyson yn digwydd, gwasgwch ran cnawdog y trwyn, plygwch ymlaen a rhowch iâ ar y talcen a phont y trwyn. Os na fydd y gwaedu yn stopio ar ôl 20 munud, ffoniwch y ward am gyngor.

Dychwelyd i waith

Bydd eich llawfeddyg yn gallu rhoi cyngor penodol ynglŷn â hyn (bydd yn dibynnu os bu biopsïau a natur eich gwaith). Fel lleiafswm, bydd angen o leiaf 48 awr i ffwrdd o'r gwaith. Gellir rhoi nodyn salwch neu ffitrwydd wrth ichi gael eich rhyddhau. Dylid osgoi gweithgaredd egniol am bythefnos os bu biopsïau.

Ysmygu

Fe'ch cynghorir yn gryf i roi'r gorau i ysmygu gan fod hyn yn achosi cosi poenus i'ch trwyn a'ch gwddf.

Ôl-driniaeth

Fe'ch cynghorir cyn rhyddhau a oes angen apwyntiad dilynol ai peidio. Efallai y bydd llythyr gyda chanlyniadau'r biopsi yn cael ei anfon atoch chi.

Cysylltwch â'r rhifau isod os oes gennych unrhyw bryderon yn dilyn eich rhyddhau neu os ydych chi'n profi unrhyw un o'r canlynol:

- Gwaedu heb ei reoli o'r trwyn.
- Tymheredd uchel.
- Gollyngiad tebyg i grawn (melyn-wyrdd) o'r trwyn.
- Poen cynyddol nad yw'n cael ei reoli â phoenladdwyr syml.

GWYBODAETH RHYDDHAU MEWN ARGYFWNG

09:00 i 17:00 Llun-Gwener (ac eithrio gwyliau banc): Cysylltwch â'r ystafell driniaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) ar 01633 234018

Ar ôl 17:00/dros nos (oedolion): Ward C0 01633 493926.

Ar ôl 17:00/dros nos (plant): Ward C1 01633 493609.

Mewn achos brys, ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English"**